



Syniadau ar sut i ddefnyddio Numicon yn y Cyfnod Sylfaen

DERBYN

1. Didoli'r pegiau a phlatiau yn ôl lliw.
2. Didoli'r platiau yn ôl patrwm.
3. Dod o hyd i blât sydd â mwy /llai o dyllau.
4. Dod o hyd i blât sy'n fwy / llai.
5. Teimlwch blât. Dewch o hyd i'r un plât yn y bag teimlo.
6. Dod o hyd i blât penodol yn y bag teimlo drwy gyffwrdd yn unig.
7. Defnyddiwch y platiau i wneud patrwm megis 1, 4, 1, 4...
8. Ymarferwyr i wneud patrwm/llun drwy ddefnyddio rhai o'r platiau. Y plant i gopïo.
9. Trefnwch y platiau yn ôl maint.
10. Dewch o hyd i'r plât sydd yn cyfateb o ran gwerth i 2 plât llai.
11. Dewiswch blât. Dewch o hyd i'r swm cyfatebol o gownteri/pegiau.
12. Cyfatebwch set o gardiau lluniau numicon i'r plât perthnasol. Cymerwch eich tro i ddewis cerdyn a chyfateb i'r plât.
13. Gwnewch lun gyda'r numicon - tŷ / trênn / wyneb, ac ati
14. Dewch o hyd i blât sydd 1 yn fwy / 1 yn llai.
15. Dangos llun o linell rif (1-5, 1-10) a gofynnwch i'r plant gwneud llinell rhif eich hunan trwy gyfateb y platiau. Dechrau defnyddio enwau rhifau.
16. Gweithgaredd annibynnol - cyfateb platiau i gardiau rhif.
17. Trefnwch lond llaw o blatiau.
18. Rhowch gownteri/pegiau i'r plant a gofynnwch iddynt ddod o hyd i'r plât sy'n cyfateb.
19. Codwch 2 blât, pa un yw'r mwyaf/llai?
20. Codwch 2 blât o wahanol feintiau. Pa blât sydd angen ei ychwanegu i wneud nhw'r un maint?
21. Dosbarthwch y platiau - os oes gennych blât 5/10 sefwch i fyny...
22. Dosbarthwch y platiau - os oes gennych blât llai na 6, sefwch i fyny...
23. Dosbarthwch y platiau - chwiliwch am bartner i wneud 5 e.e. un plentyn a phlât 1 a phlentyn arall a phlât 4
24. Dosbarthwch y platiau - allwch chwi greu'r rhif 4 gyda'r platiau?
25. Dosbarthwch y platiau - allwch chwi greu'r rhif 10 gyda'r platiau?

BLWYDDYN UN

26. Bondiau rhif - allwch chi ddarganfod 2 ffordd i wneud pob rhif gyda'r platiau?

27. Dewiswch blât a'r nifer cywir o begiau e.e. plât 7 a 7 peg. Tynnwch i ffwrdd rhai o'r pegiau, faint sydd ar ôl? (tynnu).
28. Dewiswch 3 plât e.e. plât 7, 3 a 4. Dangoswch fod 3 a 4 yn gwneud 7 drwy eu gosod ar plât 7. Yna gosodwch un o'r platiau yn unig ar rif 7 - pa blât sydd ar goll? (tynnu).
29. Trefnwch y platiau mewn trefn. Ewch ar hyd y llinell gan ychwanegu 1 i bob plât yn eu tro. Pa blât sydd un yn fwy? (adio 1)
30. Rhowch blât i lawr e.e. plât 10 a gosodwch 10 peg ynddo. Gofynnwch i blentyn dynnu 3 peg. Allwch chwi ddod o hyd i blât sy'n cyfateb i'r swm sy'n weddill? (tynnu)
31. Gwneud patrwm gyda phegiau wrth ochr plât. Tynnwch i ffwrdd rhai o'r pegiau, allwch chwi ddod o hyd i blât sy'n cyd-fynd a'r pegiau sydd ar ôl? (tynnu)
32. Dod o hyd i 2 blât run fath e.e. 3 a 3 a'u rhoi nhw at ei gilydd. Rhowch begiau i mewn ynddynt. Pa blât sy'n ffitio dros begiau? (dyblau).
33. Dewiswch blât 8 a gosodwch y nifer cywir o begiau ynddo. Allwch chi ddod o hyd i 2 blât yr un maint sy'n ffitio dros y pegiau? (4 a 4) (Dyblau)
34. Dewiswch blât 10. Allwch chwi ddarganfod dau blât sydd yr un siâp sy'n ffitio ar blât 10? (5 a 5) (Cyflwyno hanner).
35. Taflwch ddis a chymerwch blat o'r un gwerth . Ailadroddwch hyn nes bydd eich cyfanswm yn fwy na 10. Dangoswch eich cyfanswm drwy ddefnyddio plât 10 a phlât arall (Gwerth lle - degau ac unedau)
36. Plant i ddewis rhif rhwng 11 a 20. Dangos y rhif gan ddefnyddio plât 10 a'r plât perthnasol arall. (Gwerth lle - degau ac unedau)
37. Defnyddio 3 blât i wneud 20 mewn nifer o ffyrdd gwahanol.
38. Defnyddio 3 blât i wneud 15 mewn nifer o ffyrdd gwahanol.
39. Creu llinell rif 11 i 20 drwy ddefnyddio platiau 10 a'r platiau perthnasol eraill.
40. Defnyddiwch blatiau i ddangos y gwahaniaeth rhwng rhifau ... 10 yn fwy, 10 yn llai
41. Cyfrif fesul 2, 5, a 10. Gosod y platiau ar y llinell rhif a sylwi ar y patrymau maent yn eu creu.
42. Cychwyn lluos faint o blatiau 2 sydd angen i wneud?
43. Adio 9 drwy ddangos fod y plât 10 yn hafal i 9 a 1 , e.e. 7 adio 9 ydi 7 adio 10 tynnu 1.
44. Adio 11 drwy ddangos fod modd adio 10 a 1 e.e. 7 adio 11 ydi 7 adio 10 a 1
45. Dangos fod 46 yn hafal i 4 plât 10 ac un plât 6. Dewis rhifau eraill a gofyn i'r plant eu creu.
46. Defnyddio'r byrddau numicon (base boards) - dewis cerdyn patrwm lliw a'r plant i'w gwblhau yn ôl y gofyn.
47. Defnyddio'r byrddau numicon (base boards) - dewis cerdyn patrwm di-liw a'r plant i'w gwblhau yn ôl y gofyn.
48. Defnyddio'r byrddau numicon (base boards) - defnyddiwch y platiau i "wneud llun" sy'n cynnwys y bwrdd cyfan.
49. Defnyddio'r byrddau numicon (base boards) - defnyddiwch y platiau i greu patrwm sy'n cynnwys elfen o gymesuredd
50. Gem ail adrodd. Gem i ddau blentyn, bwrdd numicon bob un a set o phlatiau amrywiol. Plentyn 1 i osod plât ar ei ffwrdd a'r ail blentyn i gopïo ar eu bwrdd ei hun. Parhau i osod platiau ar y bwrdd tan mae'r bwrdd yn llawn, yna newid drosodd a phlentyn 2 i gopïo patrymau plentyn 1.

51. Gweithgareddau cymesuredd gan ddefnyddio platiau yn unig, neu pegiau yn unig, neu phegiau a phlatiau.
52. Sawl siâp sgwâr allwch chwi greu ar y bwrdd numicon gan ddefnyddio plât 4 yn unig? Meddyliwch am faint y sgwariau!
53. Sawl siâp petryal allwch chi greu ar y bwrdd numicon gan ddefnyddio plât 6 yn unig, plât 8 yn unig, platiau 6 a 8? Eto meddyliwch am faint y petryalau.
54. Mae gen i un plât melyn. Pa blât sydd werth dwbl un plât melyn?
55. Mae gen i un plât coch. Rhowch i mi plât sydd werth dwbl y plât coch.
56. Gweithgaredd grŵp - bondiau rhif. Gwneud 10 gan ddefnyddio 2 blât. Rhowch y patrwm ynghanol y bwrdd . Y plant i greu gwahanol fondiau o 10 heb ail adrodd unrhyw patrwm.
57. Pa siâp allwch chwi wneud gyda 2 blât melyn? Pa siâp allwch chwi wneud gyda 4 neu 6 neu 8 o blatiau? Allwch chi wneud sgwâr gyda 4, 6, neu 8 plât?
58. Pa siâp allwch chwi wneud gydag un plât 1 coch ac 1 plat pinc?
59. Pa blatiau sy'n gwneud siâp sgwâr?
60. Disgrifiwch y siâp allwch chwi wneud gydag un plât gwyrdd ac 1 plât melyn.
61. Yr ymarferwr i ddewiswch 2 neu fwy o blatiau. Y plant i ofyn cwestiynau i geisio darganfod pa blatiau ydynt. e.e. ydi un o'r platiau yn goch? Ydi cyfanswm y platiau yn odrif?...
62. Gwnewch siâp sgwâr gydag amrywiaeth o blatiau. Gwnewch sgwâr yr un maint ond gyda phlatiau gwahanol. Allwch chwi wneud sgwâr mwy/llai?
63. Pa siâp ydych chi'n gwneud pan fyddwch yn rhoi, er enghraifft, blât 2 a 4 gyda'i gilydd?
64. Gweithgaredd 'i'r 10 agosaf' e.e. ydi 14 yn nes at 10 neu 20? Dangoswch gyda'r platiau.
65. Defnyddiwch y bwrdd numicon i ddangos ffracsiynau syml - e.e. faint o blatiau 10 sydd angen i lenwi $\frac{1}{2}$ y bwrdd, i lenwi'r bwrdd cyfan...
- 66? Defnyddio 3 blât i ddangos cyfanswm o 15. Cofnodwch y frawddeg rhif. Oes ffordd rall i wneud 15?
67. Ychwanegwch 3 rhif mewn unrhyw drefn, dangoswch hyn drwy ddefnyddio'r platiau.
68. Trin Data - defnyddiwch y bwrdd numicon a phegiau i greu siartiau bloc syml gan orchuddio'r pegiau gyda'r platiau cywir.
69. Arddangoswch y llinell rif gyda rhai rhifau coll yn y llinell. All y plant greu'r rhifau coll drwy ddefnyddio gwahanol gyfuniadau o blatiau e.e. plât 5 'ar goll' ei greu gyda phlatiau 3 a 2 neu 4 ac 1..
70. Gem - Bob plentyn i gychwyn gyda set o blatiau 1-10. Defnyddio troellwr – a chael gwared o'r blat a ddangosir ar y troellwr. Y cyntaf i gael gwared â'u platiau i gyd sy'n ennill.
71. Gem - (groes i 70 uchod) Cychwyn neb unrhyw blât a defnyddio'r troellwr i gasglu set lawn o blatiau o 1 i 10.
72. Defnyddio platiau 3 yn unig i arddangos tabl 3 ar y llinell rif.
- 73 . Tebygolrwydd syml - ymarferwyr i osod cyfuniad o blatiau mewn bag e.e. un plât coch a 3 plât glas. Y plant i ddyfalu pa blât a dynnir yn gyntaf allan o'r bag. Ydi un lliw plat yn fwy tebygol o ddod allan o'r bag? Pam?
74. Un plentyn yn cael llond llaw o begiau. Plentyn arall i amcangyfrif faint o begiau drwy ddal plât i fyny. Ydio'n fwy neu lai na'r swm cywir?
75. Bag teimlo gwag gyda phegiau yng nghanol y cylch. Un plentyn yn codi ychydig o begiau a'u cyfrif i mewn i'r bag. Gweddill y plant yn ailadrodd y broses. Faint o begiau sydd yn y bag?
76. Bag teimlo gwag - pob peg yng nghanol y cylch. Un plentyn yn codi ychydig o begiau a'u cyfrif i mewn i'r bag ac yna yn codi'r plât cyfatebol. Ailadroddwch gyda phlentyn 2, 3, 4. Faint o begiau, drwy edrych ar blatiau, a gasglwyd yn y bag?

77. Gosod rhif 'targed' e.e 16. Plentyn cyntaf yn dewis un plât e.e. plât 9 yr ail blentyn angen darganfod y plât sy'n adio i 9 i wneud 16.
78. Defnyddio'r platiau i archwilio odrifau ac eilrifau.
79. Ymchwiliwch i weld os ydi adio 2 odrif bob amser yn gwneud eilrif.

MWY GALLUOG / BLWYDDYN 2

80. Defnyddiwch y bwrdd numicon a rhowch gyfarwyddiadau i'r plant : dechrau yn y gornel gwaelod chwith ewch 3 ar draws ac i fyny 2, rhoi peg glas yn y twll...
81. Cylchdroi - defnyddiwch y plât 3 i ddangos cylchdro. Pa safle fydd y plât ar ôl ei droi 90 gradd i'r dde?
- 82 . Sawl gwaith sydd angen troi plât 3 i symud o'r man cychwyn mewn cylch lawn?
83. Mae gen i 3 blatiau glas. Tynnwch 1 plât gwyrdd i ffwrdd , faint fydd ar ôl?
84. Defnyddio 6 blât i wneud rhif targed, e.e. 45.
85. Defnyddiwch y bwrdd numicon - faint ydi'r lleiafswm o blatiau sydd ei angen i greu 100?
86. Defnyddiwch y bwrdd numicon - faint ydi'r uchafswm o blatiau sydd ei angen i greu 100?
87. Defnyddiwch amrywiaeth o blatiau. Faint sydd gennych? Trefnwch fesul 10 i 'ch helpu i gyfrif.
87. Rhowch 2 bentwr o blatiau i blentyn. Pa bentwr ydi'r mwyaf/lleiaf?
88. Rhowch 3 pentwr o blatiau i blentyn. Trefnwch y pentyrrau – mwyaf, canolig, lleiaf.
89. Gem i ddau. Dechreuwch gyda nifer o blatiau numicon ar y bwrdd numicon. Defnyddiwch droellwr (1-10) i dynnu platiau oddi ar y bwrdd. Pwy sydd am dynnu'r plât olaf ac ennill y gêm?
- 90 Gem i ddau fel yr uchod ond tro yma defnyddio'r troellwr i osod platiau ar y bwrdd numicon. Pwy sydd yn ennill ac yn gallu gosod y plât olaf ar y bwrdd?
91. Gwerth Lle - dechreuwch gyda phum plât 10 mewn pentwr. Defnyddiwch y troellwr i ddewis rhif rhwng 1 a 9. Bydd angen tynnu'r rhif yma o'ch pentwr o numicon e.e. rhif 8 ar y troellwr - tynnu un plât 10 a gosod plât 2 yn ei le , cyfanswm o 42 . Parhau i dynnu rhifau o'ch pentwr i fynd lawr i sero.
92. Defnyddiwch y platiau i atgyfnerthu'r strategaeth o ddosrannu e.e. $9 + 8$ yr un fath â $(5 + 4)$ a $(5 + 3)$.
93. Creu patrymau cymesuredd adlewyrchol ar y bwrdd numicon.
94. Fel yr uchod ond defnyddio 2 fwrdd numicon i greu patrymau cymesuredd ar raddfeydd mwy.
95. Dewis 3 plât a'u gosod yn un ochr i'r glorian. Allwch chi ddod o hyd i blatiau i gydbwysu'r rhain?
96. Dewis 4 plât a'u gosod yn un ochr i'r glorian. Allwch chi ddod o hyd i blatiau i gydbwysu'r rhain? Allwch chi ddarganfod 4 plât arall i gyd bwysu eich platiau? .
97. Dosbarthwch blatiau un i bob plentyn. Ewch i mewn i grwpiau o 3 neu 4 , pa grŵp sydd gyda'r cyfanswm mwyaf / lleiaf?
98. Dosbarthwch blatiau un i bob plentyn. Ewch i mewn i grwpiau o 3 neu 4, pa grŵp sydd gydag odrif/eilrif fel cyfanswm?
99. Allwch chi wneud rhif 3 digid gyda'r platiau?
100. Pwy fydd y gyntaf? Gem i ddau blentyn, 1 bwrdd numicon a phlatiau amrywiol. Y plant i osod platiau numicon ar y bwrdd yn eu tro, yr olaf i osod plât at y bwrdd sy'n ennill.